


SLAM

Diwrnod
Sbort Lles Antur Mwy



Lle: Y Ganolfan, Llanberis
Pryd: 1.30-4y.p 28/2/2019
Cyswllt: susanpanthyfryd@btinternet.com, 07769279231

Y mis nesaf - Deiniolen

Oedfaon yn Nhŷ Elidir

Chwefror 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 10

5.00 p.m. - Y Parchg Eric Jones

Chwefror 17

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 3

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Chwefror 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog

11.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 17

10.00 a.m. - Y Parchg Cath Williams

11.15 a.m. - Ysgol Sul

Gofalaeth Fro'r
Llechen Las

Rhif 784
27 Ionawr, 2019
Gronyn

Brumadinho



Doeddwn i'n cofio dim am y trychineb a ddiodeffodd tref Mariana yn nhalaith Minas Gerais ym Mrasil ar Dachwedd 5ed, 2015. Lladdwyd 19 o bobl wedi i argae dymchwel gan dywallt tunelli o wastraff gweithfeydd mwyn haearn dros ardal eang. Roedd yn drychineb amgylcheddol yn ogystal â dynol. Mi gafwyd adroddiadau amdano ar y pryd gan y BBC ac eraill (fel y gwelais neithiwr wrth chwilio amdanynt). Ond un ai mi anghofiais y cyfan neu mi lwyddais i beidio â chlywed dim ar y pryd. Byddai'n dda gen i pe na fyddwn i a chithau wedi cael ein hatgoffa o'r hyn a ddigwyddodd yno dair blynedd yn ôl. Ond cael ein hatgoffa a gawsom trwy'r adroddiadau am drychineb gwaeth a ddigwyddodd ddydd Gwener yn yr un dalaith.

Y tro hwn, cadarnhawyd fod 34 o bobl wedi eu lladd wedi i argae arall dymchwel, ger tref Brumadinho. Ond mae oddeutu 300 o bobl ar goll. Ofnir eu bod i gyd wedi eu lladd. Yr un oedd yr amgylchiadau ag yn 2015, tunelli o wastraff gweithfeydd mwyn haearn yn llyfo a lladd. Mae'n anodd peidio â dwyn i gof drychineb Aberfan pan glywn am drychinebau a achosir gan wastraff diwydiannol.

Mor ddychrynlyd o drist yw meddwl am drychineb arall ym Mrasil, yn yr un dalaith, a'r un cwmni'n gyfrifol am y ddau safle. Does ryfedd fod pobl eisoes yn gofyn a ddylasai'r cwmni neu rywun arall fod wedi rhagweld y peryg y byddai'r un peth yn medru digwydd

eto. Pwy all eu beio am ofyn hynny?

Yn Brumadinho heddiw mae yna bobl yn galaru ac yn ofni'r gwaethaf. Mae yna bobl sy'n ddig wrth eraill ac yn gweld bai arnynt. Mae yna bobl a fydd yn byw mewn ofn y gall hyn ddigwydd eto rywle arall, yng nghysgod argae arall, ger gwaith mwyn haearn arall. Gallwn ddeall eu hofnau; a gallwn gydymdeimlo â nhw yn eu gofid.

Unwaith yn rhagor, fel sy'n digwydd mor aml pan glywn am ddigwyddiadau trasig mewn gwahanol rannau o'r byd, teimlwn mor ddiymadferth. Gwyddom nad ydym ond torf o wylwyr yn gweld o bell ddiodeffaint mawr y cymunedau a'r teuluoedd a'r unigolion sydd wedi dioddef mor erchyll. Gwyddom hefyd y byddwn, er gwaetha'r cydymdeimlad a deimlwn heddiw, yn fuan iawn wedi anghofio am bobl Brumadinho. Ond yw hynny bron yn annorffod wrth i bethau eraill gael sylw'r cyfryngau ac wrth i ninnau droi ein sylw at bob math o ddyletswyddau a bwrw ymlaen â'n bywydau? Ond heddiw, a thros y dyddiau nesaf, tra'r ydym yn cofio, mi fedrwn ddod â phobl Brumadinho a Minas Gerais yn eu galar a'u poen at Dduw yn ein gweddiau. Pa fudd a ddaw o wneud hynny? Pa wahaniaeth a wnaiff ein gweddiau ni a gweddiau pobl eraill i bobl Brumadinho? Wn i ddim. A dweud y gwir, does gen i mo'r syniad lleiaf. Mi adawaf hynny i Dduw, sy'n fwy nag abl i gynnal a chysuro. Gweddiwn, gan ymddiried y gweddill i Dduw ei hun.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch a Rehoboth (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan arweiniad Susan Williams a'r Gweinidog.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan Mr John Roberts, Llanfairpwll.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd, yn arbennig ein haelodau sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Mae rhai wedi bod yno ers sawl wythnos., a dymunwn i bob un ohonynt wellhad buan.

Gobeithio eu bod hwy a'u hanwyliad yn profi nerth Duw yn gynhaliach iddynt bob dydd.

Balm o Salm



'Nid i ni, O ARGLWYDD, nid i ni, ond i'th enw dy hun, rho ogoniant, er mwyn dy gariad a'th ffyddlondeb. Pam y mae'r cenhedloedd yn dweud, "Ple mae eu Duw?" Y mae ein Duw ni yn y nefoedd; fe wna beth bynnag a ddymuna. Arian ac aur yw eu delwau hwy, ac wedi eu gwneud â dwylo dynol. Y mae ganddynt enau nad ydynt yn siarad, a llygaid nad ydynt yn gweld; y mae ganddynt glustiau nad ydynt yn clywed, a ffroenau nad ydynt yn arogl; y mae ganddynt ddwylo nad ydynt yn teimlo, a thraed nad ydynt yn cerdded; ac ni ddaw swm o'u gyddfau. Y mae eu gwneuthurwyr yn mynd yn debyg iddynt, ac felly hefyd bob un sy'n ymddiried ynddynt' (Salm 115:1-8).

BYW Y BEIBL

Gweddiwn

Gweddiwn dros bobl Brumadinho ym Mrasil yng nghanol eu poen a'u galar wedi'r drychineb a ddigwyddodd yno.

'Yn dy dosturi, Arglwydd Mawr, cynnal bawb sydd wedi dioddef, wedi eu hanafu, wedi colli anwyliad, wedi colli cartrefi, wedi colli'r cyfan oedd ganddynt. Mi fedri di fod gyda'r bobl hyn mewn ffordd na allwn ni na neb arall. Bydd yn gysur ac yn nerth ac yn oleuni, yn dy gariad a'th drugaredd.'

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Menai Carson a'r teulu, 6 Llwyn Bedw, Rachub yn y brofedigaeth o golli ei thad yn ddiweddar gan weddio eu bod yn profi diddanwch a nerth Duw.

Angladd

Cynhaliwyd oedfa angladd Mrs Marian Roberts, 23 Dôl Eilian, Llanberis yn Capel Coch a Mynwent Nant Peris fore

Gwener, Ionawr 25 dan arweiniad y Gweinidog. Bu farw Mrs Roberts yn Ysbyty Gwynedd ddydd Gwener, Ionawr 18, yn 87 mlwydd oed.

Cydymdeimlwn â'i chwaer, Mrs Joyce Jones, a Gareth, Ann a Dilys a'r teulu cyfan yn eu hiraeth am chwaer a modryb annwyl. Wedi ei geni yn Llanberis a'i magu yn Llanrug, bu'n byw a gweithio yng Nghaernarfon am flynyddoedd cyn iddi ddychwelyd i Lanberis rai blynyddoedd yn ôl erbyn hyn. Bu'n driw iawn i'w theulu a buont hwythau'n ofalus iawn ohoni hithau.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yr wythnos hon, am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Ionawr 30 yng Nghapel Coffa Cyffordd Llandudno.

Ceir anerchiad gan y Parchg Jill-Hailey Harris, Llywydd presennol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gweinidog tair o eglwysi yn Abertawe, Sgeti a Threforys.

Bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn.

SLAM

Ers pythefnos cyhoeddwyd sr dudalen gefn *Gronyn* hysbyseb am SLAM sydd i'w gynnal yn Y Ganolfan yn Llanberis yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror, bawn Iau, Chwefror 28.

Be' di SLAM? Anagram sy'n crynhoi natur y gweithgaredd hwn ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed: "Sbort, Lles, Antur, Mwy". Cyfle i'r ieuencid gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau hamdden a chwaraeon a dawns yn ogystal â chael clywed am y gwahaniaeth y gall Iesu Grist ei wneud i fywyd pawb ohonom. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys pel fased, pel foli, hoci, swmba a dawns stryd.

NID pnawn ar gyfer ieuencid Llanberis yw hwn. Caiff ei gynnal yn Llanberis am fod y Ganolfan yn hwylus ar gyfer y math hwn o bawn. Mae croeso i bobl ifanc o unrhyw le ddod yno. Lle i 60 sydd, ac felly brysiwch i roi'r enwau i Susan Williams os gwyddoch am bobl ifanc sydd eisiau dod yno.

Cysylltwch â Susan trwy ebost neu ffôn susanpanthyfryd@btinternet.com neu 07769 279231

Cwrs Ieuencid

Cynhelir y Cwrs Ieuencid nesaf yng Ngholeg y Bala (ar gyfer ieuencid Blwyddyn Ysgol 7 i 11) o nos Wener i ddydd Sul, Mawrth 1-3. Holwch Susan neu'r Gweinidog am ragor o fanylion.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER
Yn Nhŷ Elidir

Dydd Sul, Chwefror 3: Gwasanaethir am 3.30 gan y Gweinidog.

CAPEL COCH A REHOBOTH,
A NANT PADARN

Dydd Sul, Chwefror 3: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Harri Parri. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

CARMEL

Dydd Llun, Ionawr 28: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Chwefror 1: Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 3: Yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a'r Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Chwefror 3: Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa yng ngofal y Parchg Ddr Geraint Tudur am 2.00 o'r gloch.